Hawdd ei Ddeall

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

# Adroddiad ar Gelfyddydau Ieuenctid yng Nghymru

## gan Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Adroddiad Argymhellion y Sesiynau Datblygu Celfyddydau Ieuenctid**.

**Mai 2022**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond mae’n bosib bydd angen cymorth arnoch chi i’w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod eich helpu.



Efallai bod hi’n anodd deall y geiriau mewn **ysgrifen las drwm**. Gallwch chi siecio weld beth mae’r holl eiriau mewn glas yn ei olygu ar **dudalen 27**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu’r bobl ifanc a gymerodd ran mewn digwyddiadau adborth. I gael mwy o wybodaeth, dyma sut i gysylltu â ni:


Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

**Gwefan:** www.ccic.org.uk

**E-bost:** nyaw@nyaw.org.uk

**Ffôn:** 029 2063 6466


Cafodd y ddogfen hon ei throi’n fersiwn Hawdd ei Deall gyda **Photosymbols** gan **Hawdd Ei Ddeall Cymru**. I ddweud wrthon ni beth rydych chi’n feddwl am y fersiwn Hawdd ei Deall hwn, cliciwch yma.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad........................................................................................4**

Am Gelfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru..............................6

Am Rwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru..................................6

**Yr hyn mae pobl ifanc ei eisiau..............................................................8**

**Rhwydwaith a Llais Ieuenctid..............................................................9**

Rhwydwaith............................................................................................9

Llais ieuenctid.......................................................................................13

**Cyllid ar gyfer celfyddydau ieuenctid...................................................15**

Ceisiadau hygyrch am gyllid................................................................16

Cyllid mae pobl ifanc yn gallu gwneud cais fer amdano..............17

**Beth mae pobl ifanc am ei weld yn digwydd nesaf.........................18**

Beth mae pobl ifanc am ei weld yn digwydd yn y 3 mis nesaf....19


Beth mae pobl ifanc am ei weld yn digwydd yn y 6 mis nesaf....20

Beth mae pobl ifanc am ei weld yn digwydd yn yr 1 i 2 flynedd nesaf.......................................................................................21

**Beth ddywedodd yr hwyluswyr ieuenctid..........................................23**

**Geiriau anodd.........................................................................................27**

# Cyflwyniad




Dyma adroddiad am beth mae pobl ifanc yn ei feddwl am **gelfyddydau ieuenctid** yng Nghymru. A'r newidiadau maen nhw am eu gweld yn digwydd i wneud pethau'n well.



Wrth sôn am **gelfyddydau ieuenctid**, rydyn ni'n golygu celf mae pobl ifanc yn ei wneud yn eu hamser eu hunain. Ddim yn yr ysgol na'r coleg.



Gofynnodd Cyngor **Celfyddydau Cymru** i 2 sefydliad ddarganfod beth mae pobl ifanc yn feddwl am gelfyddydau ieuenctid.

Y 2 sefydliad oedd:



- **Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru**
- a **Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru**, a wnaeth weithio gyda'i gilydd ar yr adroddiad hwn.



Gwnaethon nhw drefnu 3 digwyddiad ar-lein i ofyn i bobl ifanc am gelfyddydau ieuenctid.

Gwnaethon nhw wahodd:



- pobl ifanc
- sefydliadau celfyddydau ieuenctid
- a phobl sy'n gweithio yn y celfyddydau.

**Bwriad y 3 digwyddiad ar-lein oedd:**



- Siarad am gael **fforwm** ieuenctid yng Nghymru i ddweud wrth Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru beth sy'n bwysig i bobl ifanc yn y celfyddydau.

> Mae **fforwm** yn grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd i siarad am rywbeth. Mae'n gallu bod wyneb yn wyneb neu ar-lein.



- Siarad â phobl ifanc am yr hyn sy'n bwysig yn eu barn nhw yn y celfyddydau ieuenctid. A beth sydd angen **cyllid.**

> **Cyllid** yw arian sy'n cael ei roi i bobl neu sefydliad ar gyfer prosiect penodol.

## Am Gelfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru



Mae **Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru** yn elusen sy’n cefnogi pobl ifanc yn y celfyddydau. Er enghraifft, actorion, ysgrifenwyr, dawnswyr a cherddorion ifanc.



Maen nhw’n gweithio’n galed i helpu pobl ifanc i gymryd rhan yn y celfyddydau.




Maen nhw’n meddwl ei bod hi’n bwysig gwrando ar yr hyn sydd gan bobl ifanc i’w ddweud am y celfyddydau.

## Am Rwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru



Mae **Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru** yn **rhwydwaith** o bobl ledled Cymru.



Mae **rhwydwaith** yn gymuned o bobl sydd â rhywbeth yn gyffredin. Mae rhwydwaith yn ddefnyddiol i rannu syniadau a gweithio gyda phobl eraill.



Mae Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru yn cynnwys:

- Gweithwyr Celfyddydau Ieuenctid



- Artistiaid



- Myfyrwyr



- Sefydliadau celfyddydol sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

# Yr hyn mae pobl ifanc ei eisiau

Yn y digwyddiadau, dywedodd pobl ifanc eu bod nhw am weld newidiadau mewn 3 phrif faes:



- **rhwydwaith** a llais ieuenctid



- **cyllid** ar gyfer celfyddydau ieuenctid



- yr hyn dylen ni ei wneud nesaf.



Byddwn ni'n siarad am y 3 maes hwn yn y tudalennau nesaf.

# Rhwydwaith a Llais Ieuenctid

## Rhwydwaith



Dywedodd pobl y dylai Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru wneud mwy dros bobl ifanc.

**Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru:**




- wrando'n fwy ar bobl ifanc



- gweithio'n fwy gyda phobl ifanc




- bod yn fwy hyblyg gyda **chyllid** ar gyfer y celfyddydau i bobl ifanc.



Dywedodd pobl hefyd eu bod nhw am weld **rhwydwaith** celfyddydau ar gyfer pobl ifanc. Er mwyn iddyn nhw allu cyfarfod a gweithio gyda'i gilydd.



Gallai'r **rhwydwaith** hwn helpu pobl ifanc i:

- weithio gyda'i gilydd
- helpu ei gilydd
- cael gwybodaeth am y celfyddydau
- cysylltu â sefydliadau celfyddydol
- cael help gyda **chyllid**
- helpu i ddechrau gyrfaoedd yn y celfyddydau.



Roedd pawb yn cytuno y dylai pobl ifanc redeg y **rhwydwaith**. A dylai fod ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Dywedodd pobl y dylai'r **rhwydwaith**:



- fod yn hawdd i bawb gymryd rhan ynddo



- cynnwys pobl ifanc o’r holl gymunedau gwahanol yng Nghymru




- bod yn Gymraeg a Saesneg.



Dywedodd pobl hefyd y dylai fod mwy o **gyllid** ar gyfer **Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru**.



Gallai hyn helpu **Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru** i weithio gyda phobl ifanc a Chyngor Celfyddydau Cymru i ddechrau’r **rhwydwaith** newydd hwn.



Yn y digwyddiadau gwnaethon ni siarad am sut gallen ni sicrhau bod y **rhwydwaith** yn hawdd i bob person ifanc gymryd rhan ynddo.

**Dywedodd pobl gallen ni:**



- ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â phobl ifanc



- helpu pobl ifanc i gyfarfod â’i gilydd ar-lein, er enghraifft, gyda **fforwm** ar-lein



- gweithio gydag ysgolion, colegau a phrifysgolion i ddweud wrth fyfyrwyr am y **rhwydwaith**.

**“Mae angen rhwydwaith ar bobl ifanc lle mae nhw’n gallu gweithio gyda’i gilydd. Cymuned.”**

# Llais ieuenctid




Dywedodd pobl ei bod hi'n bwysig gwrando ar bobl ifanc.



Ond dywedon nhw ei bod hi'n bwysig na ddylai pobl ifanc orfod datrys pob problem.




Roedd ychydig o syniadau gyda nhw am sut i wneud hyn, er enghraifft:

**Drwy helpu grŵp o bobl ifanc i gyfarfod i drafod pethau sy'n bwysig iddyn nhw yn y celfyddydau.**



- Gallai'r grŵp gysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru i gael cyngor ac adborth.




- Dywedodd pobl ei bod hi'n bwysig bod gan y grŵp hwn bŵer gwirioneddol i newid pethau.



- Dywedodd pobl y gallen ni ddysgu gan **rwydweithiau** a sefydliadau ieuenctid eraill. Fel Cyngor Ieuenctid Caerdydd a Senedd Ieuenctid Cymru.

**Drwy wahodd 2 berson ifanc i ymuno â Chyngor Celfyddydau Cymru.**



- Ond mae rhaid i'r 2 berson ifanc hyn wybod nad oes rhaid iddyn nhw gynrychioli'r holl bobl ifanc.

**Drwy roi hyfforddiant i bobl ifanc.**



- Byddai'r hyfforddiant hwn yn rhoi'r sgiliau a'r hyder iddyn nhw ddod yn arweinwyr nesaf y celfyddydau yng Nghymru.

**"Mae pobl ifanc yn gallu helpu i greu newid yng Nghyngor y Celfyddydau a bod yn llais i gelfyddydau ieuenctid."**

# Cyllid ar gyfer celfyddydau ieuenctid



Siaradodd pobl lawer am **gyllid**.



Dywedodd llawer o bobl ei bod hi’n bwysig rhoi mwy o **gyllid** i gelfyddydau ieuenctid.



Ac y dylai bod **cyllid** sy’n gallu cael ei ddefnyddio i gelfyddydau ieuenctid yn unig.

Dywedodd pobl y dylai pobl ifanc gymryd rhan wrth:



- ysgrifennu ceisiadau am **gyllid**
- penderfynu pwy sy’n cael y **cyllid**.

# Ceisiadau hygyrch am gyllid




Dywedodd pobl y dylai fod yn haws gwneud cais am **gyllid**. Er enghraifft, ddylen nhw ddim cynnwys unrhyw eiriau na thermau caled sy'n anodd eu deall.



Dywedodd pobl ifanc fod cael cyngor gan sefydliadau sy'n rhoi **cyllid** yn ddefnyddiol iawn. Roeddwn nhw am gael mwy o'r cyngor hwn.



Dywedodd pobl ei bod hi'n bwysig dweud wrth bobl ifanc pam dydyn nhw ddim wedi cael **cyllid**. Bydd hyn yn helpu os byddan nhw'n gofyn am **gyllid** eto.




Does dim llawer o bobl yn gwybod bod gan Gyngor Celfyddydau Cymru **ffurflenni cais hygyrch.** Er enghraifft, mewn Braille a rhai Hawdd eu Deall. Mae angen i **Gyngor y Celfyddydau** ddweud wrth bobl.

# Cyllid mae pobl ifanc yn gallu gwneud cais fer amdano



Dywedodd llawer o bobl y dylai pobl ifanc allu gwneud cais am **gyllid** eu hunain.




Ond dylen nhw gael help gan Gyngor Celfyddydau Cymru neu sefydliad celfyddydol arall i wneud hyn.



Dywedodd pobl y gallai cyllidwyr gynnig **mentoriaid** i'w helpu nhw gyda'u ffurflenni cais.



Mae **mentoriaid** yn bobl sydd â phrofiad ac sy'n gallu rhoi cyngor i bobl ifanc.




Mae'r coronafeirws wedi'i gwneud hi'n anoddach i bobl ifanc ddechrau gyrfaoedd yn y celfyddydau. Mae angen mwy o gymorth a chefnogaeth arnyn nhw i wneud hyn.

# Beth mae pobl ifanc am ei weld yn digwydd nesaf



**Mae angen i sefydliadau celfyddydol feddwl am yr adroddiad hwn, a sut i gefnogi pobl ifanc yn well mewn i'r celfyddydau.**

Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n:



- cynnwys pawb




- hawdd i bawb gymryd rhan ynddo




- yn wrth-hiliol. Mae hyn yn golygu yn erbyn trin pobl yn annheg oherwydd eu hil.

# Beth mae pobl ifanc am ei weld yn digwydd yn y 3 mis nesaf




- I’r adroddiad hwn gael ei anfon allan yn Gymraeg a Saesneg.



- Fideos yn cael eu gwneud o bobl ifanc yn y celfyddydau yn dweud beth maen **nhw’n** feddwl am yr adroddiad hwn.




- Yr adroddiad hwn yn cael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, Instagram.



- Hysbysebion taledig ar Instagram am yr adroddiad hwn fel bod yr adroddiad yn cyrraedd mwy o bobl ifanc.

# Beth mae pobl ifanc am ei weld yn digwydd yn y 6 mis nesaf




- Mwy o ddigwyddiadau gyda phobl ifanc.




- I'r digwyddiadau gael eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg.




- I sefydliadau celfyddydol ddefnyddio'r digwyddiadau i gael syniadau am sut i ddechrau'r **rhwydwaith** celfyddydau ieuenctid.



- I sefydliadau celfyddydol ddefnyddio'r digwyddiadau i gael syniadau am sut i gefnogi pobl ifanc i weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.

- Cynlluniau i gael eu hysgrifennu a’u hanfon allan yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer:




- dechrau panel ieuenctid

- **cyllid** ar gyfer celfyddydau ieuenctid yn unig

- gwneud hi’n haws dod o hyd i geisiadau am **gyllid** a’u gwneud nhw.

## Beth mae pobl ifanc am ei weld yn digwydd yn yr 1 i 2 flynedd nesaf



- **Cyllid** sy’n gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer celfyddydau ieuenctid yn unig.




- I **gyllidwyr** wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gallu gwneud cais am y **cyllid** hwn eu hunain.




- Ffurflenni cais am gyllid sy'n hawdd i bobl ifanc eu gwneud. Er enghraifft, dim geiriau anodd a defnyddio iaith hawdd yn lle hynny.



- I sefydliadau celfyddydol weithio gyda'i gilydd i wneud **rhwydwaith** celfyddydau yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pobl ifanc. Ac i'r **rhwydwaith** gael ei gefnogi i weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.



- 2 berson ifanc i gael eu gwahodd i ymuno â Chyngor Celfyddydau Cymru. Ac i Gyngor Celfyddydau Cymru wrando arnyn nhw a'u cefnogi nhw.



- Rhaglen hyfforddiant i bobl ifanc ddod yn arweinwyr yn y celfyddydau.

# Beth ddywedodd yr hwyluswyr ieuenctid



Mae’r hwyluswyr ieuenctid yn bobl ifanc a gafodd eu talu i helpu i gynnal y digwyddiadau.




## Jannat Ahmed




Mae pawb yn haeddu’r cyfle i gymryd rhan yn y celfyddydau. I gael hwyl neu ar gyfer y gwaith.



Ond mae llawer o artistiaid ifanc yn gadael Cymru achos does dim digon o gefnogaeth.



## Dyddgu Glyn Jones



Mae hi’n bwysig clywed lleisiau pobl ifanc yn y celfyddydau.



Pe bai pobl ifanc yn cael eu caniatáu yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, bydden ni’n cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnon ni i aros yn y celfyddydau yng Nghymru.

## Eden-Mae Davies



Rwy’n credu mai’r peth pwysicaf y gallwn ni ei roi i bobl ifanc yn y celfyddydau yw cyfleoedd.



## Fahadi Mukulu



Un o’r pethau pwysicaf yw **rhwydwaith** cryf o bobl ifanc.



A rhoi lle iddyn nhw siarad am yr hyn sy’n bwysig iddyn nhw.



## Hannah Lad



Mae pobl ifanc am gael **rhwydwaith** ieuenctid sy’n gallu cynnig cyfleoedd i bob oedran.



## Safyan Iqbal



Rwy’n falch o fod yn Fyddar ac mae’n bwysig cael model rôl Byddar.



Byddai’n dda gallu cael **cyllid** i gefnogi fy ngwaith.

# Geiriau anodd

## Cyllid

Cyllid yw arian sy'n cael ei roi i bobl neu sefydliad ar gyfer prosiect penodol. Er enghraifft, arddangosfa ffotograffiaeth.

## Fforwm

Mae fforwm yn grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd i siarad am rywbeth. Mae'n gallu bod wyneb yn wyneb neu ar-lein.

## Mentoriaid

Mae mentoriaid yn bobl sydd â phrofiad ac sy'n gallu rhoi cyngor i bobl ifanc.

## Rhwydwaith

Mae rhwydwaith yn gymuned o bobl sydd â rhywbeth yn gyffredin. Mae rhwydwaith yn ddefnyddiol i rannu syniadau a gweithio gyda phobl eraill.

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government